# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 15 i 22 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

20 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Canlyniadau Teithiau Masnach

**Alun Cairns:** A wnaiff Dirprwy Brif Weinidog Cymru ddarparu adroddiad ar yr holl deithiau masnach a drefnwyd yng Nghymru dros y ddwy flynedd diwethaf gan gynnwys manylion: lleoliad; costau; archebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymweliad; archebion a dderbyniwyd yn ystod y chwe mis ar ôl yr ymweliad? (WAQ9837)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Anfonir holiaduron dilynol at gwmnïau 12 a 24 mis ar ôl iddynt ddychwelyd. Mae’r wybodaeth a nodir isod yn cyfeirio at y blynyddoedd ariannol 1999-2000 a 2000-01 ac mae’n seiliedig ar enillion 12-mis pan fo’r wybodaeth honno ar gael.

| | | Lleoliad | Cost (£) | Archebion a Dderbyniwyd yn Ystod yr Ymweliad (£) | Archebion a Dderbyniwyd Ymhen 12 mis (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| 99/00 | Ebr-99 | Gwlad Belg | 5,299.33 | 10,000.00 | - |
| | Meh-99 | Yr Eidal | 3,330.75 | 11,000.00 | 61,500.00 |
| | Med-99 | De Affrica | 14,019.01 | 738,000.00 | 325,000.00 |
| | Hyd-99 | Hong Kong/Taiwan | 13,197.24 | 92,400.00 | 290,000.00 |
| | Tach-99 | Kuwait/Bahrain/ Dubai/Abu Dhabi | 30,666.87 | 558,500.00 | 165,000.00 |
| | Rhag-99 | Hwngari/Y Weriniaeth Siec | 11,826.71 | - | ddim ar gael hyd yma |
| | Ion/Chwe 00 | Israel | 11,249.28 | 206,000.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Maw-00 | Denmarc | 8,233.64 | 85,000.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | | | 97,822.83 | 1,700,900.00 | 841,500.00 |
| | | | | | |
| 00/01 | Ebr-00 | Yr Aifft | 7,842.43 | 369,700.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Mai-00 | Ffrainc | 4,578.27 | 10,000.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Meh-00 | Awstralia a Singapôr | 22,660.91 | 94,000.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Med-00 | Siapan | 21,118.86 | 899,500.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Hyd-00 | Sawdi-Arabia a Bahrain | 23,228.56 | 841,000.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Tach-00 | Iwerddon | 21,823.94 | 377,500.00 | ddim ar gael hyd yma |
| | Ion-01 | Sbaen | | | |
| | Chwe-01 | Mecsico | | | |
| | | | 101,252.97 | 2,591,700.00 | - |
| | | | | | |

### Cefnogi Teithiau Masnach

**Alun Cairns:** Pa gymorthdaliadau sydd ar gael i gefnogi teithiau masnach ac ar ba sail y cânt eu dyfarnu? (WAQ9838)

**Michael German:** Mae teithiau masnach yn agored i bob busnes yng Nghymru sydd â llai na 500 o weithwyr ac sydd yn defnyddio cynnyrch neu wasanaeth a gyflenwir o Gymru.

Mae 50 y cant o gymhorthdal ar gael i dalu am deithiau awyren dosbarth economi a llety ar sail gwely a brecwast. Gall cwmnïau mawr gymryd rhan ond nid ydynt yn gymwys i dderbyn y cymhorthdal.

Fel rheol, mae cymhorthdal ar gael ar gyfer hyd at 20 lle ar bob taith ac fe'u dyrennir ar sail y cyntaf i'r felin. Fodd bynnag, pan fo cyrchfannau penodol yn boblogaidd trefnir teithiau awyren a llety ychwanegol, ymdrechir i ddarparu lle ar gyfer rhagor o gwmnïau.

**Dirprwyo Teithiau Masnach**

**Alun Cairns:** Pa ystyriaeth a roddwyd i ddirprwyo teithiau masnach i sefydliadau'r sector preifat sydd eisoes yn gweithredu yn y gwledydd sydd yn cael eu targedu? (WAQ9839)

**Michael German:** Yr ydym yn defnyddio'r contractwr sydd yn gyfrifol am redeg ein rhaglen cyfleoedd busnes rhyngwladol i gynorthwyo ac ychwanegu gwerth at y teithiau masnach pan fo hynny'n briodol. Mae MasnachCymru Rhyngwladol hefyd wedi cyflwyno rhaglen o deithiau masnach sydd yn seiliedig ar y sectorau ac sydd yn cael eu rhedeg gan gontractwyr o'r sector preifat.

**Cynrychiolaeth ar Deithiau Masnach**

**Alun Cairns:** Pa gyrff sydd yn cael eu cynrychioli ar deithiau masnach? (WAQ9840)

**Michael German:** Mae'r teithiau nad ydynt wedi eu seilio ar y sectorau yn denu amrywiol gwmnïau o'r diwydiannau gweithgynhyrchu a gwasanaeth fel ei gilydd.

**Dethol ar gyfer Teithiau Masnach**

**Alun Cairns:** Sut mae gwledydd neu ranbarthau yn cael eu dewis ar gyfer teithiau masnach? (WAQ9841)

**Michael German:** Mae swyddogion diplomyddol tramor yn ymchwilio i'r farchnad i bennu pa sectorau sydd yn haeddu blaenoriaeth. Mae *Trade Partners UK* yn casglu'r wybodaeth hon ac yn cynhyrchu matrics o ba farchnadoedd a sectorau sydd yn haeddu blaenoriaeth. Defnyddir yr wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth am gynnyrch/gwasanaethau cwmnïau yng Nghymru i benderfynu ar gyrchfannau teithiau masnach yn y dyfodol. Trefnir teithiau hefyd er mwyn dychwelyd i farchnadoedd a fu'n boblogaidd ac yn broffidiol i fusnesau yn y gorffennol.

**Datganiad ar Deithiau Masnach**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar deithiau masnach? (WAQ9842)

**Michael German:** Prif amcan y rhaglen teithiau masnach sydd yn derbyn cymhorthdal yw annog a chynorthwyo cwmnïau i allforio am y tro cyntaf a chynorthwyo'r rheini sydd eisoes yn allforio i ddatblygu eu gweithgareddau allforio i farchnadoedd newydd.

Bu'r cynllun hwn yn llwyddiant ysgubol. Er 1993, trefnwyd 62 taith, ymwelwyd â 107 marchnad. Mae gwerth yr archebion a enillwyd hyd yn hyn dros £54.5 miliwn a £224 miliwn yw ffigur yr archebion posibl.

**Bathdy Brenhinol**

**David Davies:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch y posibilrwydd y caiff y Bathdy Brenhinol ei werthu, ac effaith unrhyw breifateiddio ar swyddi yng Nghymru? (WAQ9871)

**David Davies:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch proffidioldeb y Bathdy Brenhinol ac effaith unrhyw breifateiddio ar swyddi yng Nghymru? (WAQ9872)

**Michael German:** Cyflwynodd y Bathdy Brenhinol dystiolaeth gerbron cyfarfod is-bwyllgor y Trysorlys

a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2001, yng Nghanolfan Gymuned Pont-y-clun. Yr wyf yn disgwyl am gopi o gofnodion y cyfarfod a byddaf yn ateb yn fanylach ar ôl imi eu derbyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Codiad Cyflog i Athrawon

**Glyn Davies:** A fydd costau gweithredu'r codiad cyflog o 3.7 y cant i athrawon yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y cyllid y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i lywodraeth leol yn y flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ9761)

**Glyn Davies:** A fydd y cynnydd o 5.9 y cant yng nghyflogau athrawon newydd yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y cyllid y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i lywodraeth leol yn y flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ9762)

**Glyn Davies:** A fydd y cynnydd o 3.7 y cant yng nghyflogau athrawon yn y flwyddyn ariannol nesaf yn golygu y bydd rhai pobl yn colli'u swyddi yn y proffesiwn dysgu oherwydd pwysau ariannol ar awdurdodau addysg lleol? (WAQ9763)

**Glyn Davies:** Faint fydd y cynnydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng nghyflogau athrawon yn ei gostio i awdurdodau lleol Cymru? (WAQ9765)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Caiff cost tâl athrawon ei ystyried yn setliad refeniw llywodraethau lleol ar gyfer 2001-02. Yr ydym yn amcangyfrif y byddai costau setliad tâl arfaethedig athrawon ar gyfer 2001 £6 miliwn yn uwch na'r hyn a ddarperir ar ei gyfer yn y setliad. Cyhoeddodd Edwina Hart £6 miliwn o nawdd ychwanegol ar 2 Chwefror yn dilyn cyhoeddi'r setliad tâl ar gyfer athrawon. Yn ei chyhoeddiad eglurodd mai diben y nawdd oedd lliniaru'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau addysg lleol a ddeuai o'r setliad tâl er mwyn gallu parhau i gyflwyno'r gwelliannau i ysgolion y mae setliad refeniw'r awdurdod lleol yn darparu ar eu cyfer. Darperir y nawdd hwn drwy adroddiad grant arbennig a drafodir yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mawrth.

### Lwfansau Athrawon dan Hyfforddiant o Fis Medi 2001

**Glyn Davies:** Pa lwfans i athrawon dan hyfforddiant fydd ar gael yng Nghymru o fis Medi 2001 ymlaen? (WAQ9800)

**Jane Davidson:** Bydd £6,000 o grant ar gael i'r holl ôl-raddedigion cymwys sydd dan hyfforddiant yn ystod eu cwrs ymarfer dysgu cyntaf o Medi 2001 ymlaen. Ar ben hynny, bydd £4,000 pellach ar gael i'r rheini a fydd yn astudio mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd tramor modern, technoleg neu Gymraeg ar lefel uwchradd, ac a fydd yn cael swyddi dysgu uwchradd yn y pynciau hynny ac yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf o ddysgu yn llwyddiannus.

Bydd grantiau ar gyfer ôl-raddedigion lefel uwchradd ar gael hyd at 2003-04 o leiaf. Adolygir y grantiau ar gyfer ôl-raddedigion lefel gynradd ar ôl 2001-02.

### Lwfansau Athrawon dan Hyfforddiant o Fis Medi 2000

**Glyn Davies:** Pa lwfans i athrawon dan hyfforddiant oedd ar gael yng Nghymru o fis Medi 2000 ymlaen? (WAQ9801)

**Jane Davidson:** Mae grantiau wedi bod ar gael i ôl-raddedigion cymwys sydd dan hyfforddiant ar lefel uwchradd yn ystod eu cwrs ymarfer dysgu cyntaf er Medi 2000.

Mae grant o £6,000 wedi bod ar gael i'r rheini a oedd yn astudio mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd tramor modern, technoleg neu Gymraeg. Ar ben hynny, bydd £4,000 pellach ar gael i'r rheini a fydd yn astudio'r pynciau hyn, ac a fydd yn cael swyddi dysgu uwchradd yn y pynciau hynny ac yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf o ddysgu yn llwyddiannus.

Darparwyd grant o £4,000 ar gyfer y rheini a oedd yn astudio pynciau eraill. Ar ben hynny, bydd £2,000 pellach ar gael i'r rheini ac a fydd yn cael swyddi dysgu uwchradd ac yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf o ddysgu yn llwyddiannus.

**Moderneiddio Prosesau Rheoli Sefydliadau Addysg Uwch Cymru**

**Nick Bourne:** Beth a wneir i helpu sefydliadau addysg uwch Cymru i ddiwygio a moderneiddio'u prosesau rheoli? (WAQ9847)

**Jane Davidson:** Yn ei hanfod, mae gwaith rheoli manwl sefydliadau a darparu ar gyfer diwygio'r gwaith hwnnw, wrth reswm, yn faterion i'r sefydliadau eu hunain fel cyrff annibynnol.

Fodd bynnag, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliadau addysg uwch dros y blynyddoedd diwethaf i'w helpu i ddatblygu a gwella eu prosesau cynllunio strategol, gan gynnig cyngor a beirniadaeth yn ôl y galw a sianelu ymateb atynt yn rheolaidd.

Yn dilyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 'Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent', ac yn dilyn llythyr cylch gwaith 1999 y cyngor, cytunwyd gyda'r Cynulliad y byddai'r cyngor yn datblygu fframwaith a fyddai'n cynhyrchu datganiad sicrwydd blynyddol i'r Cynulliad a oedd yn adlewyrchu gwaith monitro'r cyngor o ran trefniadau rheoli a llywodraethu yn y sectorau drwyddynt draw.

Mae'r cyngor yn fodlon bod y datblygiadau hyn yn ei alluogi i sicrhau'r Cynulliad bod gan sefydliadau yn gyffredinol weithdrefnau cynllunio cadarn.

Gyda golwg ar fesurau a chynigion a gyflwynwyd i gryfhau'r gwaith llywodraethu a rheoli yn ein sefydliadau, cyflwynwyd nifer o gynlluniau allweddol ac mae nifer o rai eraill ar y gweill. Mae elfennau allweddol y rhaglen welliannau yn seiliedig ar egwyddor ceisio cryfhau fframwaith eang yr arweiniad a'r arolygiaeth, yn hytrach na chyflwyno gofynion ychwanegol ar lefel ficro. Ystyrir bod y materion canlynol yn arbennig o berthnasol:

2001
Cyflwyno datganiad a ddiweddarwyd ynghylch ymarfer a argymhellir yn Awst 2000. Mae hwn yn cynnwys model datganiad llywodraethu corfforaethol sydd yn ceisio cwmpasu gweithgareddau'r corff llywodraethol ac yn enwedig, i ba raddau y gweithredir yr egwyddorion a nodir yn adran 1 y 'Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol' a gyhoeddwyd gan gyfnewidfa stoc Llundain ym Mehefin 1998.

2002
Yn unol â'r ymarfer cyffredin, yng Ngorffennaf 2000 cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gyfarwyddiadau cyfrifon i sefydliadau addysg uwch ar gyfer 1999/2000. Mae'r ddogfen hon yn ategu ac yn dehongli'r model datganiad llywodraethu corfforaethol a ddarparwyd yn y datganiad ar ymarfer a argymhellir. Mae'n darparu arweiniad ar gyfer cyrff llywodraethol ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu, cynnal a gwerthuso system reoli mewnol y sefydliad.

2003
Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cydweithio â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr gan gynorthwyo Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion i adolygu'r *'Guide for Members of Governing Bodies of Universities and Colleges in England and Wales'.* Bydd hyn unwaith eto yn sail i holl egwyddorion llywodraethu da, a gwn y caiff ei gyhoeddi maes o law.

**Ariannu y Pen mewn Addysg Uwch**

**Nick Bourne:** Sut mae ariannu y pen mewn addysg uwch yng Nghymru yn cymharu â'r un ffigurau ar gyfer Lloegr a'r Alban? (WAQ9848)

**Jane Davidson:** Daw'r wybodaeth ganlynol o'r ddarpariaeth arfaethedig sydd mewn llythyrau grant blynyddol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adran Addysg a Chyflogaeth a Gweithrediaeth yr Alban.

2000-01 (£ miliwn)

| | **Cymru** | **Lloegr** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|
| Grant | 293 | 4,595 | 609 |
| Ffioedd dysgu | 56 | 819 | 152 |
| **Cyfanswm** | 349 | 5,414 | 761 |
| | | | |
| Nifer y myfyrwyr | 70,200 | 1,064,000 | 118,700 |
| Uned gyfartalog y nawdd | £4,971 | £5,088 | £6,411 |

2001-02 (£ miliwn)

| | **Cymru** | **Lloegr** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|
| Grant | 318 | 4,978 | 660 |
| Ffioedd dysgu | 59 | 848 | 154 |
| **Cyfanswm** | 377 | 5,826 | 814 |
| | | | |
| Nifer y myfyrwyr | 72,400 | 1,087,000 | 120,700 |
| Uned gyfartalog y nawdd | £5,207 | £5,306 | £6,744 |

Ar gyfer y blynyddoedd 2002-03 a 2003-04, dros dro yw cyllideb y Cynulliad a chaiff y cyllidebau ar gyfer addysg uwch eu hystyried eto yng ngoleuni adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Ysgoloriaethau Addysg Uwch**

**Nick Bourne:** Beth a wneir i hyrwyddo mwy o ysgoloriaethau addysg uwch yng Nghymru? (WAQ9849)

**Jane Davidson:** Nid yw'r Cynulliad yn cyllido unrhyw ysgoloriaethau addysg uwch, ac nid oes gennyf gynlluniau i wneud hynny.

**Hyrwyddo Ymchwil Wyddonol**

**Nick Bourne:** Beth a wneir i hyrwyddo ymchwil wyddonol yng Nghymru? (WAQ9850)

**Jane Davidson:** Mae'r llythyr cylch gwaith i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf yn gosod gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer sector addysg uwch Cymru. Un o'r blaenoriaethau yw y dylai sefydliadau addysg uwch gynyddu faint o ymchwil safonol sydd ar waith ganddynt a chyflwyno rhagor o geisiadau ar sail gadarn ar gyfer grantiau cynghorau ymchwil, fel bo cyfran Cymru o'r grant yn nes at ei chyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Disgwylir i sefydliadau gydweithio, yn ôl y galw, i drefnu ein gallu i ymchwilio ac o ran cyflwyno cynigion ymchwil.

Mae swyddogion hefyd wedi negodi telerau cytundebau gwaith gyda phob un o'r cynghorau ymchwil er mwyn gwella cysylltiadau rhwng y Cynulliad, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydliadau

addysg uwch yng Nghymru ynghyd â chodi proffil ymchwil yng Nghymru. Mae cyfarfodydd gyda'r cynghorau ymchwil yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

### Cyfraniad Addysg Uwch at Dwf Economaidd a Datblygiad Technolegol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu rôl addysg uwch o ran cyfrannu at dwf economaidd a datblygiad technolegol yng Nghymru? (WAQ9851)

**Jane Davidson:** Rhoddaf gryn bwys ar ysgogi cysylltiadau effeithiol rhwng diwydiant ac academia yng Nghymru, fel elfen allweddol o'n hymgyrch i ddatblygu economi ar sail gwybodaeth sydd yn seiliedig ar gynnyrch sydd â gwerth ychwanegol uchel, ac ar weithlu sydd wedi cael ei hyfforddi'n dda ac sydd yn cael ei wobrwyo'n dda.

Mae cynllun strategol y Cynulliad 'Gwellcymru.com', yn llwyr gefnogi'r angen i gynyddu'r cydweithredu rhwng colegau a chwmnïau ac i sefydliadau addysg uwch chwarae rôl bartneriaeth holl bwysig er mwyn helpu i osod y sylfeini ar gyfer twf economaidd a busnes yn y dyfodol drwy hybu sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd.

Mae hwn yn mynd rhagddo drwy amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau ymarferol a nodwyd eisoes yn y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth a gefnogir gan y Cynulliad. Clustnodi'r rhaglenni a gweithgareddau hynny sydd â'r posibiliadau mwyaf o ran perthnasedd ac effaith, a sicrhau yr eir ar drywydd y rhain yn ddiymdroi, fydd un o gamau cyntaf y panel gweithredu sydd ar hyn o bryd yn cael ei ad-drefnu o grŵp llywio'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth.

Mae tuedd i danddefnyddio'r cyfoeth o arbenigedd a rhagoriaeth ymchwil sydd gennym yn ein sefydliadau academaidd, ac er mwyn newid hynny, mae'r Cynulliad wedi cyflwyno cynlluniau yn ddiweddar, fel y gronfa ymelwa ar wybodaeth a Wil i'w Wely i Gymru, a gynlluniwyd i annog ac ysgogi cydweithredu effeithiol ac ystyrlon rhwng diwydiant ac academia a gweithgareddau trosglwyddo technoleg. Mae'r gronfa ymelwa ar wybodaeth yn cwmpasu addysg uwch a phellach mewn un rhaglen ac yn hybu cydweithio rhwng y naill sector a'r llall. Yr ydym yn sicrhau bod £34 miliwn ar gael dros gyfnod 2000-04 dan y gronfa hon. Mae'r gronfa yn arf pwysig ar gyfer dwyn pwysau i gael cronfeydd Ewropeaidd ar gyfer ardaloedd Amcan 1 a 3.

Mewn mannau eraill, mae'r Cynulliad hefyd yn bwriadu cefnogi cais Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer nawdd sylweddol Amcan 1 i ail ganolbwyntio a chryfhau ei raglen canolfannau rhagoriaeth bresennol.

### Strategaeth Datblygu Addysg Uwch

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei strategaeth ar gyfer datblygu ac ehangu'r sector addysg uwch yng Nghymru? (WAQ9852)

**Jane Davidson:** Gosodir fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg uwch yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gellir cael gafael ar gopi o'r llythyr cylch gwaith yn Llyfrgell y Cynulliad ac mae ar gael ar y fewnrwyd hefyd. Fel a nodir yn ein cytundeb partneriaeth, mae ein bryd ar sefydlu dyfodol cadarn ar gyfer sector addysg uwch Cymru drwy gynhyrchu strategaeth 10-mlynedd ar gyfer datblygu ac ehangu sydd yn derbyn nawdd digonol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Targedau i Brosesu Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'u Galw i Mewn

**Alun Cairns:** Pa dargedau sydd wedi eu pennu ar gyfer prosesu ceisiadau cynllunio sydd wedi eu 'galw i mewn'? (WAQ9766)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Unwaith y gelwir cais i mewn ac mae'r Cynulliad yn fodlon bod y datganiad amgylcheddol, os oes galw, wedi'i gwblhau, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ddechrau ei gweithdrefnau. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau a elwir-i-mewn yn mynd rhagddynt ar hyd llwybr ymchwiliad cyhoeddus. Yn yr achosion hyn cynhelir ymchwiliad, yn unol â Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) 1992. Ar gyfer achosion sydd yn mynd rhagddynt ar hyd llwybr sylwadau ysgrifenedig mae'r arolygiaeth yn anelu at drefnu ymweliad â'r safle o fewn wyth i 10 wythnos ar ôl cyhoeddi'r weithdrefn. Mae'r arolygiaeth yn gweithio tuag at dargedau mewnol ar gyfer cyhoeddi adroddiad yr arolygydd, sydd yn amrywio yn ôl y weithdrefn a ddilynir a hyd yr ymchwiliad, os cynhelir un.

Ar ôl cwblhau adroddiad yr arolygydd, anfonir y cais ymlaen i gangen benderfyniadau'r Cynulliad. Penderfynodd Pwyllgor Cynllunio'r Amgylchedd a Thrafnidiaeth yn ddiweddar y dylai fabwysiadu targed a fyddai'n golygu penderfynu ar 80 y cant o geisiadau cyn pen 12 wythnos ar ôl derbyn adroddiad yr arolygydd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid newid y penderfyniad cynllunio i helpu i sicrhau y bodlonir y targed hwnnw.

## Gwerthuso Materion Cynllunio

**Alun Cairns:** Wrth benderfynu eu 'galw i mewn', ar ba sail y mae'r Gweinidog yn gwerthuso materion cynllunio? (WAQ9767)

**Sue Essex:** Dan adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan y Cynulliad rym i alw i mewn unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a gyflwynir i awdurdod cynllunio lleol i'r Cynulliad ei hun benderfynu arno. Dan Gyfarwyddiadau Gwyriadau a Siopau (a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1992 a Thachwedd 1993 y naill a'r llall), rhaid i awdurdodau cynllunio lleol hefyd gyfeirio unrhyw ddatblygiadau siopau at y Cynulliad os ydynt dros faint penodol ac unrhyw geisiadau a ystyrir yn wyriadau sylweddol oddi wrth eu cynlluniau datblygu. Gosodwyd y meini prawf a ddefnyddir i werthuso a ddylid galw-i-mewn ceisiadau cynllunio, hysbysiadau dan y Cyfarwyddiadau Siopau a Chyfarwyddiadau Gwyriadau mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Glyn Davies yn Hydref 1999, a chânt eu hailadrodd isod:

'Nid ymyrryd gydag awdurdod awdurdodau cynllunio lleol yw ein polisi oni bai fod angen gwneud hynny. Awdurdodau cynllunio lleol sydd yn gyfrifol am reolaeth cynllunio yn eu hardaloedd o ddydd i ddydd a dylent fod yn rhydd i gyflawni'r dyletswyddau hynny mewn modd cyfrifol.

O bryd i'w gilydd bydd yn briodol i'r Cynulliad benderfynu yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol. Caiff pwerau'r Cynulliad i alw ceisiadau cynllunio i mewn er mwyn penderfynu arnynt, eu defnyddio'n ddethol. Caiff ceisiadau eu hystyried yn ôl pob achos ac yn gyffredinol, ystyrir galw cais i mewn pan fydd y cais yn codi materion cynllunio sydd yn bwysicach na mater lleol a fyddai'n cynnwys materion:

- sydd yn mynd yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol;
- a allai gael effeithiau eang tu hwnt i'r gymdogaeth;
- a allai godi cryn ddadleuon tu hwnt i'r gymdogaeth;
- sydd yn debygol o gael cryn effaith ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, cadwraeth natur neu hanesyddol;
- sydd yn codi materion diogelwch cenedlaethol; neu
- sydd yn codi materion cynllunio newydd.'

## Ffermydd Gwynt ar y Môr

**Alun Cairns**: Pa ganllawiau sydd wedi eu cynnig i ddarpar ddatblygwyr ar ddatblygu ffermydd gwynt ar y môr? (WAQ9768)

**Alun Cairns:** I ba raddau y bydd awdurdodau cynllunio llywodraeth leol yn cael dylanwadu ar neu gyfrannu at ddatblygu ffermydd gwynt ar y môr? (WAQ9769)

**Sue Essex:** Mae'r broses sydd yn dod i rym ar gyfer rhoi caniatâd i orsafoedd cynhyrchu a yrrir gan ddŵr yn gymhleth, a bydd o bosibl yn galw am gyflwyno ceisiadau ar wahân i sawl adran yn llywodraeth y DU, y Cynulliad, awdurdodau lleol ac asiantaethau'r llywodraeth, ynghyd â chais i Gomisiwn Ystadau'r Goron ar gyfer les ar safle.

Mae'r gwahanol adrannau ac awdurdodau sydd yn gysylltiedig wedi cydnabod pa mor ddymunol fyddai rhesymoli a symleiddio'r holl broses cymaint ag y bo modd, gan ei wneud yn symlach ar gyfer darpar ddatblygwyr. Mae'r ffordd orau o fwrw ymlaen yn parhau i gael ei ystyried ac ymgynghorir arno yng ngwanwyn 2001. Ar ôl penderfynu ar egwyddor y broses gyffredinol, caiff ei hymestyn yn fanylach mewn nodyn cyfarwyddyd ar gyfer datblygwyr.

Ochr yn ochr â hynny, disgwyliaf i Ganllawiau Cynllunio (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol 8 (Cymru): Ynni Adnewyddadwy ystyried pob math o ynni adnewyddadwy gan gynnwys posibilrwydd cynlluniau ar y môr. Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn ysgrifenedig (WAQ9774) am ragor o fanylion am hyn o beth.

## Polisi Cynllunio Gofodol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisi cynllunio gofodol ar gyfer ynni adnewyddadwy? (WAQ9774)

**Sue Essex:** Mae adolygiad o ganllawiau cynllunio yn mynd rhagddo a chyhoeddir drafft 'Polisi Cynllunio Cymru' i'r cyhoedd ymgynghori arno'n helaeth yn ddiweddarach yn y mis. Yr wyf wedi dechrau adolygu Canllawiau Cynllunio (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol 8 (Cymru): Ynni Adnewyddadwy. Bydd hwn yn ystyried y goblygiadau cynllunio sydd yn gysylltiedig â datblygu pob ffynhonnell ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bwriedir i'r canllawiau sefydlu ffordd effeithiol o roi sylw i dargedau ynni Llywodraeth y DU tra'n parchu ansawdd amgylchedd Cymru. Sefydlwyd grŵp ymgynghori technegol i fynd â'r adolygiad rhagddo mewn modd cynhwysol, a bydd yn cynnwys amrywiaeth mawr o fudiadau sydd â diddordeb mewn cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 23 Chwefror.

Yn anochel, bydd adolygu Nodyn Cyngor Technegol 8 yn rhoi sylw i faterion gofodol oherwydd y bydd yn archwilio egwyddor hybu datblygu pob math o ynni adnewyddadwy pan fo hynny'n economaidd ddeniadol ac yn amgylcheddol dderbyniol.

## Pont Droed dros yr Afon ger Caersws

**Glyn Davies:** Pa awdurdod statudol sydd gan y Cynulliad i gaffael pont droed dros yr afon, ger y gefnffordd yng Nghaersws? (WAQ9784)

**Sue Essex:** Yn ei rôl fel awdurdod priffyrdd ar gyfer y gefnffordd, nid oes gan y Cynulliad bwerau statudol i gyllido na chaffael tir ar gyfer pont droed o'r fath. Gwn am yr anawsterau sydd gan gerddwyr sydd yn croesi'r gefnffordd yng Nghaersws ac yr ydym yn cynnig cyflwyno arwyddion traffig a darparu llwybr troed i wella'r sefyllfa. Byddai adeiladu pont droed ar wahân yn fater i Gyngor Sir Powys ei ddilyn fel yr awdurdod priffyrdd lleol. Mae'r Cynulliad yn cyllido ceisiadau gan awdurdodau lleol, sydd yn gallu cynnwys pontydd troed, drwy'r mecanwaith grant trafnidiaeth, ond dim ond pan fo'r gost dros £1 miliwn a'i fod yn rhan o becyn o fesurau a fydd yn cyfrannu at roi ein polisi trafnidiaeth integredig ar waith.

## Arwyddion Ffyrdd ar yr A55

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog adolygu ei chanllawiau i awdurdodau lleol, i ymwneud â darparu arwyddion ffyrdd, ac yn benodol a wnaiff hi drafod gyda Chyngor Sir Gwynedd yr angen i ddarparu arwyddion newydd ar yr A55 yng nghyffiniau Bangor i gyfeirio modurwyr tuag at Benrhyn Llŷn? (WAQ9798) [W]

**Sue Essex:** Ni fwriedir adolygu'r canllawiau cyfredol ar ddarparu arwyddion ffyrdd yn dynodi atyniadau i dwristiaid.

Ni ddarperir arwyddion cyfeiriadol fel rheol ar gyfer ardaloedd megis Penrhyn Llŷn oherwydd ehangder yr ardal a'r anawsterau sydd yn codi o geisio arwain gyrwyr at fan penodol.

Mae fy swyddogion yn trafod y ffordd orau o ddarparu gwybodaeth i yrwyr yn ardal Gwynedd gyda Chyngor Sir Gwynedd ar hyn o bryd.

## Mastiau Ffonau Symudol

**David Davies:** Faint o geisiadau a gyflwynwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer gosod mastiau ffonau symudol ar dir ysbytai yng Nghymru? (WAQ9867)

**David Davies:** Faint o geisiadau a gyflwynwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer gosod mastiau ffonau symudol ar dir ysgolion yng Nghymru? (WAQ9869)

**Sue Essex:** Ni chedwir yr wybodaeth hon gan y Cynulliad. Cyflwynir pob cais cynllunio a phob hysbysiad cymeradwyaeth ymlaen llaw i'r awdurdodau cynllunio lleol unigol.

## Mastiau Ffonau Symudol a ddefnyddir gan fwy nag Un Gweithredwr

**David Davies:** Pa ganran o fastiau ffonau symudol yng Nghymru a ddefnyddir gan fwy nag un gweithredwr? (WAQ9870)

**Sue Essex:** Ar hyn o bryd, ni chedwir yr wybodaeth ystadegol y gofynnwch amdani. Mae gan yr Adran Masnach a Diwydiant ffigurau ar gyfer y DU a dywedir wrthyf bod 9,000 o drosglwyddyddion ffonau symudol yn y DU a bod tua 1,700 ohonynt yn cael eu defnyddio gan fwy nag un gweithredwr.

## Troadau Dolfor-Glascoed ar yr A483

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gennych i wneud troadau Dolfor Glascoed ar yr A483 yn fwy diogel? (WAQ9906)

**Sue Essex:** Edrychwyd ar ddewisiadau posibl ar gyfer gwella'r adran hon o'r A483 yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid yw'n rhan o'r rhwydwaith graidd o gefnffyrdd, ac mae ei lleoliad ar y rhestr blaenoriaethau yn golygu na wnaethpwyd llawer o waith ar y cynllun yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n annhebyg y gwneir unrhyw welliannau mawr yno yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn ymwybodol o'r anawsterau yn yr ardal, ac yn ddiweddar maent wedi cyfarwyddo Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru i roi wyneb newydd ar yr ardal hon i wella'r gwrthiant rhag llithro ac i wella'r arwyddion ar y tro gwaethaf. Bwriedir i'r gwaith hwn ddod i ben ymhen y misoedd nesaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwybodaeth am Grantiau ar gyfer Mudiadau Gwirfoddol

**Janet Ryder:** Pa weithdrefnau sydd yn bodoli i sicrhau bod mudiadau'r sector gwirfoddol yn derbyn gwybodaeth am grantiau perthnasol o fewn amser? (WAQ9747) [W]

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae'r Cynulliad yn gweithredu nifer o gynlluniau grantiau sydd ar gael i sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys, yr amodau a'r telerau, a'r amserlenni'n amrywio. Mae rheolwyr y grantiau'n defnyddio ystod o ddulliau cyhoeddusrwydd sydd yn dibynnu ar y ffactorau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gwybod drwy sefydliadau o'r sector gwirfoddol sydd yn gweithredu fel canolwyr a rhwydweithiau cysylltiedig; defnyddio gwefan y Cynulliad; a rhoi gwybod yn uniongyrchol i sefydliadau sydd wedi mynegi diddordeb penodol. Mae manylion y fath grantiau ar gael yn arweinlyfr y Cynulliad i grantiau ar gyfer y sector gwirfoddol, sydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

### Therapyddion a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Eraill i'w Cyflogi erbyn 2004

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog bennu targed ar gyfer nifer y therapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ychwanegol i'w cyflogi yn NHS Cymru erbyn 2004? (WAQ9785)

**Jane Hutt:** Gan fod fy mryd ar gynyddu gweithlu NHS Cymru, yr wyf wedi ychwanegu 75 at nifer y gweithwyr proffesiynol sydd yn gysylltiedig â myfyrwyr meddygol. Erbyn 2004 bydd 225 yn fwy o fyfyrwyr dan hyfforddiant mewn gwaith proffesiynol sydd yn gysylltiedig â meddygaeth na sydd ar hyn o bryd.

Yn ôl y ffigurau presennol, bydd dros 1,750 o therapyddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn cwblhau eu hyfforddiant erbyn 2004.

### Nyrsys Ychwanegol i'w Cyflogi erbyn 2004

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog bennu targed ar gyfer nifer y nyrsys ychwanegol i'w cyflogi yn NHS Cymru erbyn 2004? (WAQ9786)

**Jane Hutt:** Gan fod fy mryd ar gynyddu gweithlu NHS Cymru, yr wyf wedi ychwanegu 190 y flwyddyn at nifer y myfyrwyr nyrsio. Erbyn 2004 bydd 570 yn fwy o fyfyrwyr dan hyfforddiant nag sydd ar hyn o bryd.

Yn ôl y ffigurau presennol, bydd dros 3,800 o nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd wedi cwblhau eu hyfforddiant erbyn 2004.

### Meddygon Teulu Ychwanegol i'w Cyflogi erbyn 2004

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog bennu targed ar gyfer nifer y meddygon teulu ychwanegol i'w cyflogi yn NHS Cymru erbyn 2004? (WAQ9787)

**Jane Hutt:** Gan fod fy mryd ar gynyddu gweithlu NHS Cymru, yr wyf wedi ychwanegu 65 at nifer y myfyrwyr meddygol eleni. Mae 13 o feddygon teulu ychwanegol sydd yn gofrestrwyr eleni hefyd, gyda thwf blwyddyn ar ôl blwyddyn am o leiaf y tair blynedd nesaf.

Yn 2004 bydd o leiaf 1,385 o fyfyrwyr meddygol dan hyfforddiant yng Nghymru. Mae ymrwymiad i greu 19 swydd swyddog tŷ cyn-cofrestru ychwanegol, a fydd yn codi i 47 yn 2004, ynghyd â nawdd ychwanegol ar gyfer lleoliadau swyddogion tai cyn-cofrestru ym maes gofal sylfaenol.

Ni osodwyd targedau gwirioneddol ar gyfer nifer y meddygon teulu a gyflogir gan NHS Cymru erbyn 2004 gan fod adolygiad ar gynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo a gosodir y targedau ar ôl cwblhau'r adolygiad.

### Meddygon Ymgynghorol Ychwanegol i'w Cyflogi erbyn 2004

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog bennu targed ar gyfer nifer y meddygon ymgynghorol ychwanegol i'w cyflogi yn NHS Cymru erbyn 2004? (WAQ9788)

**Jane Hutt:** Yn 2004, bydd o leiaf 1,385 o fyfyrwyr meddygol dan hyfforddiant yng Nghymru. Mae ymrwymiad i greu 19 swydd swyddog tŷ cyn-cofrestru ychwanegol, a fydd yn codi i 47 yn 2004, ynghyd â nawdd ychwanegol ar gyfer swyddi swyddogion tai cyn-cofrestru a 60 o gofrestrwyr arbenigol ychwanegol erbyn 2003. Bydd y swyddi cofrestrwyr arbenigol ychwanegol hyn yn galluogi codi nifer yr ymgynghorwyr yn y dyfodol.

Mae ymddiriedolaethau Cymru yn nodi y penodwyd 50 o ymgynghorwyr ychwanegol gyda'r arian ychwanegol a oedd ar gael eleni. Ni osodwyd targedau ar gyfer nifer ychwanegol cyffredinol yr ymgynghorwyr erbyn 2003 gan fod adolygiad ar gynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo a gosodir y targedau ar ôl cael canlyniadau'r adolygiad.

### Cynrychiolaeth Staff ar Fyrddau'r NHS

**David Melding:** A fydd cynrychiolaeth staff ar fyrddau'r NHS yn cael ei sicrhau drwy fod y cyfryw gynrychiolydd staff yn aelod o'r bwrdd? (WAQ9796)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddenu cynrychiolwyr staff at lefel y bwrdd ar gyrff yr NHS. Pennir aelodau byrddau'r NHS gan reoliadau; mae deddfwriaeth ar glawr ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol ac anweithredol yn unig.

### Cau Cartrefi Nyrsio'r Sector Preifat

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Ngheredigion? (WAQ9806)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf ym Mhowys? (WAQ9807)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Ynys Môn? (WAQ9808)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Ngwynedd? (WAQ9809)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Sir Ddinbych? (WAQ9810)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Sir y Fflint? (WAQ9811)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Wrecsam? (WAQ9812)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Sir Benfro? (WAQ9813)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Sir Gaerfyrddin? (WAQ9814)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Abertawe? (WAQ9815)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Nghastell-nedd Port Talbot? (WAQ9816)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ9817)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf ym Mro Morgannwg? (WAQ9818)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Rhondda Cynon Taf? (WAQ9819)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf ym Merthyr Tudful? (WAQ9820)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Nghaerffili? (WAQ9821)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf ym Mlaenau Gwent? (WAQ9822)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Nhor-faen? (WAQ9823)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn Sir Fynwy? (WAQ9824)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Nghasnewydd? (WAQ9825)

**Glyn Davies:** Faint o gartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, a chartrefi nyrsio/preswyl cyfun yn y sectorau preifat ac annibynnol sydd wedi peidio â bodoli ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yng Nghaerdydd? (WAQ9826)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth ddibynadwy am nifer y cartrefi preswyl a nyrsio sydd wedi cau ar gael yn ganolog. Ysgrifennaf atoch cyn gynted ag y bydd unedau archwilio awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol wedi gwirio'r wybodaeth. Rhoddir copi o'm llythyr yn y Llyfrgell.

**Meddygon Teulu yn Siroedd Gogledd Cymru**

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o swyddi gwag sydd ar gyfer meddygon teulu yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam? (WAQ9853)

**Jane Hutt:** Casglodd yr Adran Iechyd ddata am swyddi gwag meddygon teulu yn ystod 1999-2000 gan 96 o'r 104 awdurdod iechyd yng Nghymru a Lloegr a chyhoeddwyd yr wybodaeth yn Hydref 2000 *(General Practitioner Recruitment, Retention and Vacancy Survey 2000 for England and Wales, Hydref 2000)*. Mae'r arolwg hwn yn rhoi gwybodaeth am swyddi gwag ym mhob awdurdod iechyd ond nid ar gyfer pob ardal awdurdod lleol unigol. Yn anffodus ni atebodd pob awdurdod iechyd yng Nghymru yr arolwg. Byddwn yn cael gafael ar y data sydd ar goll ac ysgrifennaf at yr Aelod gyda'r manylion priodol cyn gynted â phosibl. Rhoddir copi o'r llythyr yn y Llyfrgell.

**Nifer y Myfyrwyr Meddygaeth o Siroedd Gogledd Cymru**

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y gweinidog ddweud faint o fyfyrwyr o siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam sydd yn hyfforddi ar hyn o bryd yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru Caerdydd? (WAQ9854)

**Jane Hutt:** Mae 2,015 o fyfyrwyr israddedig o'r DU ar restr y coleg a daw 969 ohonynt o Gymru, gyda 102 o'r rheini o'r ardaloedd a restrwyd yn eich cwestiwn. Dyma'r dadansoddiad:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 20 |
| Gwynedd | 30 |
| Conwy | 16 |
| Sir Ddinbych | 17 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 0 |
| Wrecsam | 19 |

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd yn astudio rhaglenni sydd yn ymwneud â meddygaeth, deintyddiaeth, nyrsio a bydwreigiaeth a'r proffesiynau a gysylltir â meddygaeth, ond nid ydynt yn cynnwys ffigurau sydd yn ymwneud â myfyrwyr sydd yn astudio am ddiploma mewn nyrsio.

**Hyfforddiant Meddygol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor**

**Ieuan Wyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnig hyfforddiant meddygol i fyfyrwyr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor? (WAQ9855)

**Jane Hutt:** Mae Prifysgol Cymru, Bangor, ynghyd â Sefydliad Gogledd-Ddwyrain Cymru ac ymddiriedolaethau NHS lleol eisoes yn cyfrannu'n helaeth at hyfforddi myfyrwyr meddygol israddedig yng Nghymru. Mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn rhagweld y bydd rhaid o leiaf ddyblu nifer yr wythnosau myfyrwyr a ddarperir gan Fangor, Sefydliad Gogledd-Ddwyrain Cymru ac ymddiriedolaethau NHS lleol dros y blynyddoedd nesaf os ydym am gyrraedd ein targed sef hyfforddi 400 o fyfyrwyr meddygol ychwanegol yng Nghymru erbyn 2003. Sefydlwyd bwrdd prosiect ymestyn israddedigion meddygol a fydd yn gweithredu dros Gymru-gyfan i gyflwyno argymhellion imi erbyn Medi eleni

ynghylch pa gyfraniad penodol gall sefydliadau addysg uwch unigol ac ymddiriedolaethau NHS ei wneud i ymestyn addysg feddygol a chyfleusterau ymchwil ledled Cymru.

**Cyffuriau Sglerosis Ymledol ar yr NHS**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi argymell bod cyffuriau ar gael ar bresgripsiwn yr NHS i bobl sydd yn dioddef o MS? (WAQ9861)

**Jane Hutt:** Fis Tachwedd 1995, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig gyfarwyddyd ynghylch cyffuriau ar gyfer trin sglerosis ymledol. Yr oedd hwnnw'n cynnwys rhagnodi a chyngor clinigol.

Nid wyf wedi cyhoeddi unrhyw gyngor ers hynny, ond byddwn yn disgwyl i awdurdodau iechyd adolygu eu polisïau gyda golwg ar y canllawiau sydd i ddod gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, sydd yn bwriadu eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

**Timau Iechyd Meddwl Cymunedol**

**David Lloyd:** Sawl tîm iechyd meddwl cymunedol sydd yn yr arfaeth ar gyfer Bro Morgannwg? (WAQ9907)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, mae pum tîm iechyd meddwl cymunedol ym Mro Morgannwg. Mae tri ohonynt yn gwasanaethu oedolion oed gweithio yn nwyrain, canol a gorllewin y Fro a cheir un ar gyfer henoed sydd â salwch meddwl ac un ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl yn eu harddegau sydd yn gwasanaethu'r ardal drwyddi draw.

Mae Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro yn dilyn trywydd gwaith datblygu chweched tîm iechyd meddwl cymunedol i wasanaethu Penarth yn nwyrain y Fro. Bydd yr ymddiriedolaeth yn gyfrifol am bob tîm ar wahân i'r timoedd iechyd meddwl cymunedol ar gyfer oedolion yng ngorllewin a chanol y Fro, Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg sydd yn gyfrifol am y rheini.

**Darpariaeth Gwasanaethau Therapi ac Adfer**

**David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddarparu gwasanaethau therapi ac adfer o fewn iechyd meddwl ym Mro Morgannwg? (WAQ9908)

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro ar ganol datblygu cyfleuster adfer cymunedol gyda hyd at 10 gwely i wasanaethu ardaloedd dwyreiniol a chanolog Bro Morgannwg. Fe'i sefydlir yn Ynys y Barri, ger y cleifion y bydd yn ei wasanaethu. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn creu tîm adfer i wasanaethu Bro Morgannwg. Yn y tymor byr, caiff cleifion a staff adfer eu lletya mewn dau dŷ adfer a adnewyddwyd yn Heol y Parc, yr Eglwys Newydd. Disgwylir y bydd y cyfleuster newydd yn y Barri ar agor erbyn Mehefin 2001, pan fydd yr holl gleifion a staff yn symud i'r cyfleuster hwnnw.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gael cefnogaeth therapi ychwanegol, a fydd yn rhan gyfannol o'r timau iechyd meddwl cymunedol ynghyd â chyfleusterau gofal dydd neu adfer.

**Teledu a Ffonau wrth Welyau**

**David Melding:** A yw'r weinyddiaeth yn bwriadu darparu setiau teledu a ffonau wrth welyau ymhob prif ysbyty yng Nghymru erbyn 2004? (WAQ9909)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb lleol yw darparu gwasanaethau isadeiledd mewn ysbytai, sydd yn ystyriaeth a gymerir ar lefel ymddiriedolaeth NHS. Mae cyfleusterau fel ffonau a setiau teledu wrth ochr y gwely yn disgyn i'r categori gwasanaeth hwn. Mae rhai ymddiriedolaethau eisoes yn trafod gyda darpar gyflenwyr ar gyfer rhoi cyfleusterau o'r fath ar waith.

## Clinigau Mynediad Brys ar gyfer Poen y Frest

**David Melding:** A wnaiff y weinyddiaeth ddarparu clinigau mynediad brys ar gyfer poen y frest i gleifion ar draws y wlad erbyn 2003? (WAQ9910)

**Jane Hutt:** Mae drafft cynllun gweithredu fframwaith gwasanaeth cenedlaethol clefyd y galon yn cynnig y dylai pob ysbyty dosbarth cyffredinol gael uned asesu poen aciwt ar y frest erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r ymgynghori ar y cynllun drafft wedi dod i ben yn ddiweddar a chaiff y cynllun terfynol ei lansio yn fuan.

## Adnoddau at Lanhau Ysbytai

**David Melding:** Pa adnoddau a neilltuwyd dros y tair blwyddyn ariannol nesaf ar gyfer glanhau ysbytai yng Nghymru? (WAQ9911)

**Jane Hutt:** Cyfeiriais at safonau glanweithdra mewn ysbytai yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru', a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror. Mae'r ddogfen yn rhoi braslun o'r ffordd y disgwylir i ymddiriedolaethau'r GIG arddel glanweithdra ymhlith eu prif gyfrifoldebau rheoli, ac i lanweithdra, hylendid a mesurau rheoli heintiau fod wrth raidd agendâu rheoli.

## Meddygon Teulu

**David Melding:** A wnaiff y weinyddiaeth gymryd camau i sicrhau y gall cleifion weld meddyg teulu yng Nghymru o fewn 48 awr erbyn 2004? (WAQ9996)

**Jane Hutt:** Yn fy adroddiad 'Gwella Iechyd yng Nghymru', nodais y byddai'r targedau manwl ar gyfer gofal sylfaenol yn cael eu llunio ddechrau 2001 ac wedi hynny byddaf yn trefnu amser ar gyfer cydymffurfio. Y nod yw y gall cleifion gael gafael ar aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr ar ôl gofyn am apwyntiad. Gwn fod y rhan fwyaf o feddygon teulu yn gweithio tuag at hyn.

## Cysylltu Canolfannau Meddygon Teulu i NHSnet

**David Melding:** A fydd holl ganolfannau meddygon teulu yng Nghymru wedi eu cysylltu i rwydwaith NHSnet erbyn 2004? (WAQ10018)

**Jane Hutt:** Mae NHS Cymru'n gweithredu ei rwydwaith preifat ei hun, DAWN (rhwydwaith digidol Cymru gyfan). Mae DAWN wedi'i gysylltu ag NHSnet. Mae meddygon teulu sydd eisoes mewn cysylltiad â DAWN yn gallu agor NHSnet a'i wasanaethau yn syth.

Mae NHS Cymru yn rhoi strategaeth telathrebu newydd ar waith a fydd yn golygu diweddaru ei isadeiledd telathrebu. Fel rhan o'r rhaglen ddiweddaru fawr hon, a than gyfarwyddyd y rhaglen sylfaenol ar gyfer practis meddygol cyffredinol, bydd pob practis meddygon teulu yng Nghymru yn derbyn cysylltiad wedi'i reoli i'r system rhwydwaith a ddiweddarwyd.

Fel o'r blaen, bydd y system ddiweddaraf hefyd yn golygu bod modd agor NHSnet (neu ei olynydd). Bwriedir i'r rhaglen sylfaenol ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2003.

## Cylch Gwaith yr Asiantaeth Foderneiddio

**David Melding:** I ba raddau y bydd cylch gwaith yr asiantaeth foderneiddio yn ymestyn i Gymru? (WAQ10020)

**Jane Hutt:** Nid yw cylch gwaith y bwrdd moderneiddio yn Lloegr yn cynnwys Cymru. Bydd grŵp llywio yn goruchwylio rhoi 'Gwella Iechyd yng Nghymru' ar waith a byddaf yn cadeirio'r pwyllgor hwnnw a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad, yr NHS, llywodraeth leol a buddiolwyr eraill.

**Rhagbrofi Ymddiriedolaeth Gofal i Grwpiau Iechyd Lleol**

**David Melding:** A fydd y Gweinidog yn rhagbrofi Ymddiriedolaeth Gofal i Gymru, fel y darperir ar ei chyfer yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol? (WAQ10023)

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r dewisiadau posibl ar gyfer ailgyfansoddi grwpiau iechyd lleol ar ôl i'r awdurdodau iechyd gael eu diddymu yn 2003? (WAQ10028)

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddarpariaeth ar gyfer grwpiau iechyd lleol sydd yn dymuno ysgwyddo pwerau ychwanegol i'w hailgyflunio'u hunain fel ymddiriedolaethau o dan Ran 1 Deddf Iechyd 1999 ar ôl i'r awdurdodau iechyd gael eu dirwyn i ben yn 2003? (WAQ10036)

**Jane Hutt:** Bwriadaf edrych ar yr opsiynau ar gyfer statws trefniadol a rôl ddatblygol grwpiau iechyd lleol fel rhan o raglen weithredu 'Gwella Iechyd yng Nghymru'. Ar hyn o bryd, nid wyf yn ystyried bod ymddiriedolaethau gofal yng Nghymru yn briodol ar gyfer anghenion penodol, ond credaf mai datblygu a chryfhau grwpiau iechyd lleol yw'r ffordd orau ymlaen. Bwriadaf ymgynghori ynghylch y dewisiadau gorau a ddaw i'r wyneb o'r trafodaethau sydd ar fin cael eu cynnal ar y mater hwn.

**Sefydlu Cronfa i Blant yng Nghymru**

**David Melding:** A fydd y Gweinidog yn sefydlu cronfa i blant yng Nghymru, fel sydd yn cael ei sefydlu gan yr Adran Iechyd? (WAQ10024)

**Jane Hutt:** Mae dwy elfen i'r gronfa i blant yn Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r gronfa wedi'i thargedu at waith ataliol sydd, yn fras, yn gyfystyr â'r gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud drwy'r gronfa partneriaeth plant a ieuenctid yma yng Nghymru. Mae gweddill y nawdd yn canolbwyntio ar sefydlu rhwydweithiau o gronfeydd plant lleol drwy'r sector gwirfoddol. Byddaf yn ystyried manteision cynllun tebyg yng ngoleuni'r adolygiad presennol o'r grant gwasanaethau cefnogi plant a theuluoedd, a rhoddaf gyhoeddiad yn hwyrach ymlaen yn ystod y flwyddyn.

**Haen Ranbarthol NHS Cymru**

**David Melding:** Beth fydd natur haen ranbarthol NHS Cymru fel y'i hamlinellwyd yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'? (WAQ10027)

**Jane Hutt:** Mae ystyried y gwahanol newidiadau strwythurol a gynigir yn rhan ganolog o'r broses weithredu sydd bellach ar waith. Mae'r cynllun yn cymeradwyo'r syniad o economi iechyd a pha mor berthnasol ydyw i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cyflunio ei swyddogaethau iechyd ac ystyrir isadeiledd fel rhan o'r broses weithredu.

**Ansawdd Bwyd Ysbytai**

**David Melding:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i wella safon bwyd yn Ysbytai Cymru? (WAQ10030)

**Jane Hutt:** Yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru', a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror, manylais ar yr ystod o dargedau a gyflwynir yn 2001 i sicrhau bod yr elfennau gorau o'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diweddar yn cael eu defnyddio'n gyffredinol ledled Cymru. Cadarnhaodd y ddogfen honno fy nghred y dylid rhoi bwyd maethlon i gleifion, yn ogystal â dewis rhesymol a hyblygrwydd o ran amseroedd y prydiau bwyd yn ôl yr anghenion clinigol.

## Adeiladu Canolfannau Gofal Sylfaenol Newydd

**David Melding:** Faint o ganolfannau gofal sylfaenol newydd a gaiff eu hadeiladu erbyn 2004, yng Nghymru? (WAQ10032)

**Jane Hutt:** Yn fy araith yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 13 Chwefror, ymrwymais y Cynulliad i foderneiddio a datblygu cyfleusterau gofal sylfaenol. Drwy ymgynghori â'r NHS a'i bartneriaid byddaf yn awr yn ystyried beth yw'r ffordd orau i fwrw ymlaen â'r gwaith a nes daw'r broses honno i ben ni allaf ddweud pa gyfleusterau a ddarperir nac ychwaith ymhle y ceir datblygiadau.

## Canolfannau Dydd i Fenywod yn Unig

**David Melding:** A fydd canolfannau dydd i fenywod yn unig yn cael eu sefydlu yng Nghymru? (WAQ10034)

**Jane Hutt:** Nid oes cynlluniau i sefydlu canolfannau dydd i fenywod yn unig yng Nghymru ar hyn o bryd.

## Aros mewn Unedau Damwain ac Argyfwng

**David Melding:** A wnaiff y weinyddiaeth gymryd camau i sicrhau na fydd unrhyw glaf yng Nghymru'n aros mwy na phedair awr mewn uned damwain ac argyfwng rhwng yr adeg y caiff ei dderbyn a'r adeg y caiff ei anfon adref neu ei drosglwyddo? (WAQ10037)

**Jane Hutt:** Mae hyn eisoes yn safon yn Siarter y Cleifion Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r safon iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei datblygu ac mae pob un o safonau Siarter y Cleifion yn cael ei hadolygu. Ym mhob chwarter er Mehefin 1996 hyd at Fedi 2000, mae'r safon siarter hon wedi ei bodloni o leiaf 93 y cant wrth i gleifion newydd gyrraedd adrannau damweiniau neu unedau damweiniau bach.

Mae'r tasglu pwysau brys wedi cyflwyno nifer o argymhellion i wella perfformiad mewn adrannau damweiniau, sydd yn cynnwys:

- defnyddio criwiau parafegyddon fel rhan o'r tîm blaenoriaethu wrth y drws blaen;
- amrywiaeth ehangach o weithwyr proffesiynol i weithio ochr yn ochr â staff mewn adrannau damweiniau;
- sicrhau bod swyddogion tŷ ar alwad y tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer pob prif arbenigedd mewn uned ddamweiniau;
- sicrhau bod ymgynghorydd neu gofrestrydd profiadol ar gael i drafod rheoli cleifion gyda'r meddygon teulu a oedd yn eu cyfeirio;
- annog opsiynau lleol eraill ar wahân i fynd i uned ddamweiniau.

Yr ymddiriedolaethau sydd i roi'r rhain ar waith.

## Neilltuo Apwyntiadau Cleifion Mewnol

**David Melding:** A wnaiff y weinyddiaeth gymryd camau i sicrhau y caiff pob apwyntiad i gleifion mewnol yng Nghymru ei neilltuo erbyn diwedd y flwyddyn 2005? (WAQ10038)

**Jane Hutt:** Mae 'Gwella Iechyd yng Nghymru' yn gofyn i ymddiriedolaethau'r NHS weithio tuag at gyflwyno apwyntiadau sydd wedi eu neilltuo drwy gyflwyno system derbyn cleifion drwy apwyntiadau sydd wedi'u neilltuo mewn dau neu dri arbenigedd yn ystod 2001-02 a'u bod ar waith yn llawn erbyn Mawrth 2003 yn y pum arbenigedd mwyaf. Mae'r tîm arloesi mewn gofal yn cefnogi datblygiadau yn y maes hwn ar hyn o bryd.

**Rhestrau Aros yng Nghymru**

**Peter Rogers:** Pa wybodaeth ystadegol sydd ar gael ar hyn o bryd i ddangos a fydd rhestrau aros yng ngogledd Cymru yn cael eu byrhau yn unol â'i hymrwymiad i gael gostyngiad o 65,000 erbyn mis Mawrth 2001? (WAQ10041)

**Jane Hutt:** Caiff gwybodaeth ystadegol am restrau aros ei chasglu gan bob awdurdod iechyd yn fisol. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer Rhagfyr 2000. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ar y rhyngrwyd yn www.wales.nhs.uk/pubs.cfm

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Iawndal Amaeth-ariannol**

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog dros Faterion Gwledig gadarnhau fod cais yn cael ei wneud i'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau iawndal arian-amaeth sydd yn ddyledus i amaethwyr Cymru? (WAQ9797) [W]

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Mae'n rhaid i unrhyw gais a wneir i'r Comisiwn Ewropeaidd am iawndal amaeth-ariannol fod ar sail y DU gyfan fel Aelod-Wladwriaeth. Rhaid i'r DU hysbysu'r Comisiwn cyn mis Ebrill. Yr wyf wedi cynnal trafodaeth ac wedi ysgrifennu at Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd y DU, yn datgan fy nghefnogaeth i dalu'r iawndal hwn i ffermwyr yng Nghymru.

**Diogelu'r Cyhoedd rhag Cig Eidion wedi'i Heintio â BSE**

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei swyddogaeth a'i gyfrifoldeb i sicrhau y cydymffurfir â mesurau i ddiogelu pobl Cymru rhag cig eidion wedi'i heintio â BSE yn cyrraedd y gadwyn fwyd? (WAQ9830

**Carwyn Jones:** Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd ac fe'i cynghorir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cyfrifoldeb yr awdurdodau gorfodi perthnasol yw sicrhau y dilynir yr holl ofynion statudol a fwriedir i ddiogelu defnyddwyr. Y Gwasanaeth Hylendid Cig ac awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am orfodi 'r rheolau sydd yn ymwneud â BSE mewn perthynas â bwyd yn y DU. Mae'r rheol 30 mis, sydd yn sicrhau nad yw gwartheg hŷn yn cael ymuno â'r gadwyn fwyd, y gwaharddiad ar gig famalaidd a blawd esgyrn mewn bwyd anifeiliaid, a gosod rheolau ar ddeunydd risg penodol, sydd yn golygu cael gwared ar bron yr holl feinwe sydd yn debyg o gludo heintusrwydd mewn anifail heintiedig, i gyd yn ffactorau sydd yn diogelu defnyddwyr Cymru rhag BSE. Cyfrifoldeb pob gwlad unigol, boed yn aelod-wladwriaeth neu'n drydedd wlad, yw sicrhau bod bwyd sydd yn cael ei allforio i'r DU yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd cenedlaethol a'r Undeb Ewropeaidd. Mae Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ymweld ag aelodau-gwladwriaeth a thrydydd gwledydd i sicrhau bod deddfwriaeth a gorfodaeth yn bodloni gofynion y farchnad sengl. Yn ddiweddar, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gofyn i'r Gwasanaeth Hylendid Cig ac awdurdodau lleol godi lefel y profion a wneir ar gig eidion a fewnforir ar ben ei daith.

**Rheoli Rhedyn**

**Glyn Davies:** A yw amodau ymuno â'r Cynllun Tir Gofal yn cynnwys rheoli rhedyn? (WAQ9902)

**Carwyn Jones:** Mae holl gytundebau Tir Gofal yn cynnwys cynllun gwaith cyfalaf 10 mlynedd sydd, mewn achosion priodol, yn cynnwys rheoli rhedyn.

### Ymlediad Rhedyn

**Glyn Davies:** Pa ddata sydd ar gael ynghylch ymlediad rhedyn yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf? (WAQ9903)

**Carwyn Jones:** Gellir mapio'r ardaloedd lle ceir rhedyn drwy ddefnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol. Gellir cymharu'r data hwn gyda lluniau o'r awyr o flynyddoedd blaenorol er mwyn amcangyfrif lledaeniad y rhedyn.

### Rheoli Ymlediad Rhedyn

**Glyn Davies:** Pa gamau a gymerir i reoli ymlediad rhedyn yng Nghymru? (WAQ9904)

**Carwyn Jones:** Mae nifer o'r ardaloedd yng Nghymru lle mae rhedyn yn debygol o ymgartrefu wedi eu dynodi un ai yn ardaloedd Tir Cymen neu'n ardaloedd amgylcheddol sensitif. Mae tua 50 y cant o ffermydd yn yr ardaloedd hyn yn rhan o gynlluniau tymor hir i reoli rhedyn. Mae Tir Gofal, a ddisodlodd y cynlluniau hyn, bellach yn cynnig cyfle i ffermwyr o Fôn i Fynwy ymuno â chynllun amaeth-amgylchedd sydd yn cynnwys rheoli rhedyn.

### Sefydlu beth yw Priodweddau Carsinogenig Rhedyn

**Glyn Davies:** Pa waith ymchwil ydych chi'n ei gynnal i weld beth yw priodweddau carsinogenig rhedyn? (WAQ9905)

**Carwyn Jones:** Nid oes ymchwil ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ymchwil a wnaed yn y gorffennol yn y DU a thramor wedi dangos bod rhedyn yn cynnwys cyfansoddion carsinogenig.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Cost Lle Parcio Ychwanegol (Adeilad y Cynulliad)

**Glyn Davies:** At eich atebion i WAQ 9545 a WAQ 9139, beth yw cost rhentu neu brydlesu'r tir? (WAQ9901)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Nid oes cost llogi na phrydlesi ychwanegol i'r Cynulliad am y tir sydd wedi'i ddarparu ar gyfer rhoi lle ychwanegol i barcio ceir y tu ôl i faes parcio adeilad y Cynulliad.